# 2. Anrhegion

Llefarydd: Rydan ni wedi clywed hanes y Nadolig cyntaf sawl tro. Mae'r stori'n gyfarwydd, ond beth, ddywedwch chi, yw ei neges i ni heddiw? Beth ddylai ein hymateb fod? A ddylen ni lawenhau am fod Duw wedi anfon 'rhodd' mor werthfawr ag Iesu Grist i ni? Ond nid llawenhau drwy gân a geiriau'n unig, ond drwy roi i eraill, yn ei enw ef. Gwrandewch ar y plant yn sgwrsio.

**Deialog – Cyfnewid Anrhegion** (**Rhan 1**)

Plentyn 1: Sut wyt ti? Wyt ti'n barod at y Nadolig? Mae pawb mor brysur yn ceisio cael popeth yn barod! Dyma ti anrheg fach gen i a phob hwyl i ti.

Plentyn 2: Diolch yn fawr. Aros, mae gen i anrheg i ti hefyd, dim ond rhywbeth bach i ddymuno Nadolig llawen i ti. Ydy dy fam-gu a'th dad-cu yn dod atoch chi dros y Nadolig?

Plentyn 1: Ydyn, fe fydd hi'n braf eu gweld nhw; dydy dad-cu ddim wedi bod yn dda yn ddiweddar. Dyna'r peth gorau am y Nadolig, teuluoedd yn cael bod gyda'i gilydd.

Plentyn 2: O! Ydy mae'n braf. Mi fydda i wrth fy modd yn gweld y teulu gyda'i gilydd hefyd ac yn cael hwyl a chlywed tad-cu yn sôn pa mor wahanol oedd y Nadolig 'slawer dydd. Ga i agor dy anrheg di nawr?

Plentyn 1: Wel, ddylet ti ei gadw tan y Nadolig, ond, os ca i agor dy un di, gei di agor f'un i!

Plentyn 2: Iawn, dyna fargen! [*Y ddau yn agor eu hanrhegion*]

Plentyn 1 a 2: [*Gyda'i gilydd*] Jyst be o'n i eisiau! [*Y ddau yn chwerthin*]

Plentyn 1: Sawl mil o weithiau fydd pobl yn dweud hynna'r Nadolig yma tybed?

Plentyn 2: Mi ddywedodd y gweinidog yn y cwrdd plant nad ydan ni'n gwybod y gwahaniaeth rhwng bod 'eisiau' pethau a bod eu 'hangen'.

Plentyn 1: Ie, rydan ni wrth ein bodd yn cael pethau, ond does dim angen hanner y pethau a gawn ni.

Plentyn 2: Dywedodd y gweinidog hefyd y dylen ni fel Cristnogion fod yn llawer mwy parod i roi nag i dderbyn a chofio bod cynifer o bobl mewn angen.

Plentyn 1: Mae e'n dweud y gwir, oherwydd dyna ddysgodd Iesu Grist.

**Deialog – Cyfnewid Anrhegion (Rhan 2)**

| | |
|---|---|
| Plentyn 3: | Tra'n bod ni'n cael yr holl bethau hyn rydan ni eisiau, mae yna filoedd ar filoedd o bobl yn marw o newyn y Nadolig yma. |
| Plentyn 4: | Wyt ti'n cofio'r ffilm yna welon ni oedd yn sôn am y miloedd heb fwyd a heb gysgod? Mae yna lawer o bobl felly y Nadolig hwn. |
| Plentyn 3: | Eto, roedd y ffilm yn dweud bod digon o fwyd ar gyfer pawb a digon dros ben ond bod gormod gan rai pobl a rhy ychydig gan eraill. |
| Plentyn 4: | Dyna ffordd dda o'i roi e! Mi glywais i am un teulu yn gosod lle ychwanegol wrth y bwrdd cinio Nadolig, ac i bob un oedd yn bwyta roi gwerth beth oedd wedi ei fwyta ar y plât yn y lle gwag a'i anfon i Gymorth Cristnogol. |
| Plentyn 3: | Syniad da! Os ydan ni'n credu yn ffordd Iesu Grist, mae hi'n anodd iawn i ni fwynhau'r Nadolig, a gwybod bod cymaint o bobl yn dioddef yn ein byd ni, a'i bod hi'n bwysig iawn i ni rannu rhoddion Duw i ni gyda phobl eraill. |
| Plentyn 4: | Ond mae Duw eisiau mwy, sef ein bod yn rhoi ein hunain yn anrhegion iddo; rhoi ein hamser i sôn am Iesu Grist, rhoi ein doniau i wneud ei waith a rhoi ein bywyd i wasanaethu Duw a pheidio â cholli cyfle i rannu a gweddïo a gwneud ein gorau dros eraill. |
| Plentyn 3 a 4: | [*Yn troi at y gynulleidfa*] Ar ran y plant, Nadolig hapus yn ffordd Iesu Grist, i bob un ohonoch chi. |
| Gweddi: | O! Dduw, mae'n bosib y byddwn ni'n bwyta gormod y Nadolig hwn, oherwydd mai dyna'r peth i'w wneud. Byddwn wedi bwyta llawer gormod tra bod eraill wedi bod yn chwilio am fwyd. Arglwydd, dysga ni i fod yn fodlon ar ddigon – digon i'n cadw'n fyw i'th wasanaethu di drwy helpu eraill. Rwyt ti'n dioddef pan mae dy blant yn dioddef. Gweddïwn am Nadolig a fydd yn gyfle i ni rannu, yn gyfle i roi yn fwy nag i dderbyn. Yn enw Iesu Grist. Amen. |

**DIWEDD**